*Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 1841 (Cy.167)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Coleg Garddwriaeth Cymru (Diddymu) 2009

*Gwnaed - - - - 9 Gorffennaf 2009*
*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - 10 Gorffennaf 2009*
*Yn dod i rym - - 1 Awst 2009*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 27 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**1**) ("y Ddeddf") i'r Ysgrifennydd Gwladol ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy.(**2**)

Yn unol ag adran 27(7)(a) o'r Ddeddf, maent wedi ymgynghori â'r gorfforaeth addysg bellach o'r enw Coleg Garddwriaeth Cymru(**3**) ("CGC"). Yn unol ag adran 27(2), gwneir y Gorchymyn gyda chydsyniad y gorfforaeth addysg bellach o'r enw Coleg Glannau Dyfrdwy(**4**) a'r gorfforaeth addysg uwch o'r enw Prifysgol Glyndŵr(**5**).

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Coleg Garddwriaeth Cymru (Diddymu) 2009 a daw i rym ar 1 Awst 2009.

### Diddymu a hrosglwyddo

**2.** Ar 1 Awst 2009 diddymir CGC a bydd—

(a) pob eiddo, hawl a rhwymedigaeth CGC a bennir yn Rhan 1 o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn cael ei drosglwyddo neu ei throsglwyddo i Brifysgol Glyndŵr, sef corff corfforaethol a sefydlwyd at ddibenion sy'n cynnwys darparu cyfleusterau neu wasanaethau addysgol;

(**1**) 1992 p.13. Diwygiwyd adran 27 gan baragraff 16 o Atodlen 1 i Orchymyn Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Cyngor) 2005 (O.S. 2005/3238) a chan baragraff 8 o Atodlen 1 i Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 2007 (p.25).

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (OS 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf lywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) Fe'i sefydlwyd gan Orchymyn Addysg (Corfforaethau Addysg Bellach) 1992 (O.S. 1992/2097).

(**4**) Fe'i sefydlwyd gan Orchymyn Addysg (Corfforaethau Addysg Bellach) 1993(O.S. 1993/97).

(**5**) Cafodd ei sefydlu gan Orchymyn Addysg (Corfforaethau Addysg Uwch) (Cymru) (Rhif 3) 1993 (O.S. 1993/56) o dan yr enw 'North East Wales Institute of Higher Education' (Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru) a'i hailenwi'n Brifysgol Glyndŵr ar 3 Gorffennaf 2008.

(b) pob eiddo, hawl a rhwymedigaeth CGC a bennir yn Rhan 2 o'r Atodlen yn cael ei drosglwyddo neu ei throsglwyddo i Brifysgol Glyndŵr a Choleg Glannau Dyfrdwy i'w dal ar ymddiried iddynt eu hunain fel tenantiaid ar y cyd mewn cyfrannau cyfartal ac ar ymddiried i'w defnyddio at ddibenion elusennol sydd at ddibenion addysgol yn unig;

(c) pob eiddo, hawl a rhwymedigaeth arall CGC sydd heb ei gynnwys neu ei chynnwys ym mharagraffau (a) a (b) o'r Erthygl hon yn cael ei drosglwyddo neu ei throsglwyddo i Goleg Glannau Dyfrdwy.

**Trosglwyddo Staff**

**3.** Bydd adran 26(2), (3) a (4) o'r Ddeddf yn gymwys i unrhyw berson sy'n gyflogedig gan CGC yn union cyn 1 Awst 2009 fel petai'r cyfeiriadau yn yr adran honno—

(a) at berson y mae'r adran honno yn gymwys iddo yn gyfeiriad at berson sy'n gyflogedig fel hynny;

(b) at y dyddiad gweithredol yn gyfeiriadau at 1 Awst 2009;

(c) at y trosglwyddwr yn gyfeiriadau at CGC;

(ch) at y gorfforaeth yn gyfeiriadau at Goleg Glannau Dyfrdwy, ac eithrio mewn perthynas â'r cyflogeion hynny a ddynodir yn Rhan 3 o'r Atodlen (“Cyflogeion Rhan 3”);

(d) at y gorfforaeth mewn perthynas â'r Cyflogeion Rhan 3 yn gyfeiriadau at Brifysgol Glyndŵr.

*J Griffiths*
Y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau, o dan awdurdod y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

9 Gorffennaf 2009

YR ATOD EN

Erthyglau 2 a 3

# RHAN 1

## Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau sy'n trosglwyddo i Brifysgol Glyndŵr

**1.** Y buddiant sy'n codi, yn ddarostyngedig i'r baich, a phob hawl a rhwymedigaeth sy'n deillio o gytundeb a wnaed rhwng (1) Coleg Garddwriaeth Cymru a (2) Prifysgol Morgannwg neu mewn cysylltiad â'r cytundeb hwnnw, dyddiedig 6 Chwefror 2007.

**2.** Pob buddiant a phob hawl a rhwymedigaeth cysylltiedig CGC yn laneurgain Sir y Fflint a ddangosir yn fanylach ag ymyl du a chroeslinellau ar y plan sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn hwn, sef rhan o'r tir a gynhwyswyd mewn cytundeb dyddiedig 1 Hydref 2000 a wnaed rhwng (1) Cyngor Sir y Fflint (2) Y Cyngor Trosglwyddo Addysg a (3) Coleg Garddwriaeth Cymru, ynghyd â'r adeiladau sydd ar y tir hwnnw.

**3.** Pob eiddo, hawl a rhwymedigaeth arall CGC a ddefnyddir, a fwynheir ac yr eir iddo neu iddi'n unig i ddarparu addysg uwch a gwasanaethau cysylltiedig o'r tir a'r fangre a ddisgrifiwyd uchod neu sy'n deillio ohonynt [neu fel arall].

# RHAN 2

## Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau sy'n trosglwyddo i Goleg Glannau Dyfrdwy a Phrifysgol Glyndŵr

**4.** Pob buddiant a phob hawl a rhwymedigaeth cysylltiedig CGC mewn tir yn laneurgain Sir y Fflint a ddangosir yn fanylach ag ymyl du a chroeslinellau ar y plan sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn hwn, sef rhan o'r tir a gynhwyswyd mewn cytundeb dyddiedig 31 Hydref 2000 a wnaed rhwng (1) Cyngor Sir y Fflint (2) Y Cyngor Trosglwyddo Addysg a (3) Coleg Garddwriaeth Cymru gan gynnwys y cyfan o'r tir a gofrestrwyd yn y Gofrestrfa Tir, Swyddfa Cymru o dan rif teitl CYM12524 a'r cyfan o'r tir a gofrestrwyd yn y Gofrestrfa Tir, Swyddfa Cymru o dan deitl Rhif WA613240.

**5.** Pob eiddo, hawl a rhwymedigaeth arall CGC a ddefnyddir, a fwynheir neu yr eir iddo neu iddi i ddarparu addysg bellach ac uwch a gwasanaethau cysylltiedig o'r tir a ddisgrifiwyd uchod neu sy'n deillio ohono.

# RHAN 3

## Cyflogeion sy'n trosglwyddo i Brifysgol Glyndŵr

Richard Martin Lewis

Mark Birtles Simkin

David Skidmore


Peter Edward Styles

Nicola Sweeting

Angela Winstanley

Tamsin Jane Young

**Cynllun o'r Gorchymyn (Diddymiad) Coleg Garddwriaeth Cymru 2009 ynghlwm**




---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diddymu gydag effaith o 1 Awst 2009 y gorfforaeth addysg bellach a sefydlwyd i redeg Coleg Garddwriaeth Cymru. Mae'n darparu ar gyfer trosglwyddo ei eiddo, ei hawliau a'i rwymedigaethau i Goleg Glannau Dyfrdwy a Phrifysgol Glyndŵr ac eiddo, hawliau a rhwymedigaethau penodol eraill a fydd yn cael eu trosglwyddo i Goleg Glannau Dyfrdwy a Phrifysgol Glyndŵr i'w dal at ddibenion addysgol. Mae'r Gorchymyn yn sicrhau hawliau cyflogeion y gorfforaeth drwy gymhwyso adran 26(2) i (4) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.

Nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i baratoi ar gyfer yr offeryn hwn, gan nad oes ganddo unrhyw effaith ar gostau busnes.